*This document is available in English*

| Adroddiad er gwybodaeth | |
|---|---|
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Medi 2020 - Hanner Blwyddyn** |

**HANNER BLWYDDYN**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn erbyn ei amcanion gwella a llesiant a gweithgarwch digwyddiadau eraill o bwys.

**CRYNODEB**

2 **Yr holl ddigwyddiadau** - Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn fe aeth y Gwasanaeth at 2,607 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen - sef 2% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2019/20.

3 **Tanau yn ôl categori** - Aethpwyd at gyfanswm o 1,087 o danau rhwng Ebrill a Medi, sef gostyngiad o 1.8% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Cynyddodd tanau damweiniol eilaidd 43% (295 o danau i 422 o danau), roedd y mwyafrif (90%) o ganlyniad i ddeiliaid yn llosgi sbwriel a gwastraff gardd mewn gerddi preifat.

4 **Prif danau yn ôl cymhelliad** - Cafwyd gostyngiad mewn prif tanau damweiniol ac eilaidd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn; 10.6% a 19.3% yn ôl eu trefn.

5 **Tanau yn ôl math a chymhelliad** – Cafwyd gostyngiad yn nifer y prif danau mewn adeiladau annomestig rhwng Ebrill a Medi; 43 eleni o gymharu â 38 yn y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, digwyddodd 26 yng Ngharchar EM Berwyn o gymharu â 27 yn y flwyddyn flaenorol.

6 **Galwadau diangen** - aethpwyd at 1,241 o alwadau diangen yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, sef 2.9% yn fwy nag yr aethpwyd atynt y llynedd a mwy nag unrhyw flwyddyn ers 2016/17. Cafwyd mymryn o ostyngiad mewn Larymau Tân Awtomatig a larymau tân maleisus ond cafwyd cynnydd o 9.7% mewn galwadau diangen didwyll o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

7 **Digwyddiadau gwasanaeth arbennig** – Fe aeth y Gwasanaeth at 67 yn llai o ddigwyddiadau (19.4%) yn ystod hanner cyntaf 2020/21 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd wedi parhau i ostwng o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (55.9%). Fe ddioddefodd mwyafrif y rhai a anafwyd fân anafiadau.

8 **Tanau damweiniol mewn cartrefi** - Fe aeth y Gwasanaeth at 187 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef lefel debyg i'r hyn a welwyd yn hanner cyntaf 2019/20 (186 o danau damweiniol mewn cartrefi). Ni chofnodwyd ychwaneg o farwolaethau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod yr ail

chwarter. Dioddefodd cyfanswm o 12 o bobl fân anafiadau rhwng Ebrill a Medi, ond ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol yn ystod y cyfnod hwn.

9 **Archwiliadau Diogel ac Iach** – Cwblhawyd 6,471 o archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod hwn, ac o'r rhain roedd 2,157 (33%) o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.

10 **Yr holl danau mewn cartrefi** - Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn achos mwyafrif y tanau a fynychwyd mewn cartrefi er na wnaethant weithredu ar bob achlysur; nid oedd synhwyrydd yn bresennol yn achos 32 o'r tanau hyn.

**ARGYMHELLIAD**

11 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

12 Mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020 (Hanner Blwyddyn) ar gael i'r Aelodau yn Atodiad 1, er gwybodaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng nghynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2020/21. |
| Cyllideb | Mae'n cynorthwyo i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o weithgarwch mewn digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion sydd arno oherwydd newidiadau mewn gwaith ar gyfer digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Hanner Blwyddyn

## Ebrill 2020 – Medi 2020


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**

**CYNNWYS**


| ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH DIGWYDDIADAU | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS Â GWELLA A LLESIANT - AMCAN A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad Larymau Mwg | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod chwe mis cyntaf 2020/21 aeth y Gwasanaeth at 2,607 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen - sef 2% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2019/20.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2020-21 | 1,379 | 1,228 | | | 2,607 | ↓ 2.0% | 2,951 | ↓ 11.7% |
| | 2019-20 | 1,330 | 1,329 | | | 2,659 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2020-21 | 654 | 433 | | | 1,087 | ↓ 1.8% | 1,225 | ↓ 11.3% |
| | 2019-20 | 586 | 521 | | | 1,107 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | 181 | | | 279 | ↓ 19.3% | 540 | ↓ 48.3% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | | | 346 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | 614 | | | 1,241 | ↑ 2.9% | 1,186 | ↑ 4.6% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | | | 1,206 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** maent wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2016/17. Yn 2020/21, cafwyd gostyngiad o 12.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gostyngiad mwyaf arwyddocaol oedd y gostyngiad o 19.3% a gafwyd yn nifer y prif danau bwriadol.

2.2 **Tanau eilaidd –** Cafwyd cynnydd o 5.7% yng nghyfanswm y tanau eilaidd yn 2020/21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Tra bo tanau eilaidd bwriadol wedi gostwng 35.3% cafwyd cynnydd sylweddol o 43% yn nifer y tanau eilaidd damweiniol. Digwyddodd mwyafrif y tanau eilaidd (dros 90%) mewn eiddo 'Tu Allan'.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd ddiwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2020-21 | 225 | 217 | | | 442 | ↓ 12.5% | 510 | ↓ 13.3% |
| | 2019-20 | 238 | 267 | | | 505 | | | |
| Tanau eilaidd | 2020-21 | 394 | 202 | | | 596 | ↑ 5.7% | 678 | ↓ 12.0% |
| | 2019-20 | 319 | 245 | | | 564 | | | |
| Tanau simnai | 2020-21 | 35 | 14 | | | 49 | ↑ 29.0% | 37 | ↑ 32.4% |
| | 2019-20 | 29 | 9 | | | 38 | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 3.0 Prif danau, yn ôl y Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod hanner cyntaf 2020/21 cafodd 38 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau annomestig o gymharu â 43 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

3.2 O'r tanau bwriadol uchod, digwyddodd 26 yng Ngharchar EM Berwyn o gymharu â 27 y flwyddyn flaenorol, y tro cyntaf i'r ffigwr ostwng ers i'r carchar agor, er mai dim ond mymryn o wahaniaeth a welwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Categori Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2020-21 | 42 | 46 | | | 88 | ↓ 19.3% | 117 | ↓ 24.8% |
| | 2019-20 | 43 | 66 | | | 109 | | | |
| Yr holl danau damweiniol | 2020-21 | 183 | 171 | | | 354 | ↓ 10.6% | 392 | ↓ 9.7% |
| | 2019-20 | 195 | 201 | | | 396 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Aethpwyd at 1,241 o alwadau diangen yn ystod hanner cyntaf 2020/21, sef 2.9% yn fwy nag yr aethpwyd atynt y llynedd a mwy nag unrhyw flwyddyn ers 2016/17. Cafwyd mymryn o ostyngiad mewn Larymau Tân Awtomatig ond cafwyd cynnydd o 9.7% mewn galwadau diangen didwyll o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd gostyngiad o 21.7% mewn galwadau diangen maleisus





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 651 | 602 | 611 | 627 | 613 | 613 |
| Didwyll | 483 | 508 | 598 | 556 | 610 | 554 |
| Maleisus | 21 | 18 | 15 | 23 | 18 | 19 |
| Cyfanswm | 1,155 | 1,128 | 1,224 | 1,206 | 1,241 | 1,186 |

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | 614 | | | 1,241 | ↑ 2.9% | 1,186 | ↑ 4.6% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | | | 1,206 | | | |
| Larymau tân awtomatig | 2020-21 | 282 | 331 | | | 613 | ↓ 2.2% | 613 | → 0% |
| | 2019-20 | 288 | 339 | | | 627 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2020-21 | 328 | 282 | | | 610 | ↑ 9.7% | 554 | ↑ 10.1% |
| | 2019-20 | 273 | 283 | | | 556 | | | |
| Maleisus | 2020-21 | 17 | 1 | | | 18 | ↓ 21.7% | 19 | ↓ 5.2% |
| | 2019-20 | 12 | 11 | | | 23 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Cafwyd gostyngiad o 19.4% mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ystod hanner cyntaf 2020/21 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Y gostyngiad mwyaf arwyddocaol oedd y gostyngiad o bron i 56% a welwyd yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.




| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| GRFfs | 107 | 98 | 106 | 111 | 49 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 205 | 238 | 195 | 200 | 195 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 110 | 472 | 120 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 5 | 10 | 35 | 35 | 35 |


| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | 181 | | | 279 | ↓ 19.4% | 540 | ↓ 48.3% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | | | 346 | | | |
| Gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 17 | 32 | | | 49 | ↓ 55.9% | 105 | ↓ 53.3% |
| | 2019-20 | 53 | 58 | | | 111 | | | |
| Heblaw gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 81 | 149 | | | 230 | ↓ 2.1% | 435 | ↓ 47.1% |
| | 2019-20 | 118 | 117 | | | 235 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 Yn achos 35% o'r 49 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychwyd yn ystod hanner cyntaf 2020/21 roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth ddefnyddio offer i dynnu o leiaf un claf allan o'r cerbyd.

6.2 Cafwyd anafusion yn achos 24 o'r 49 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, gyda mwyafrif yr anafusion yn dioddef mân anafiadau.




**49** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd

**24** o ddigwyddiadau pryd cafodd pobl anaf


**17** o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid tynnu pobl allan / eu rhyddhau

| Difrifoldeb yr Anaf* | Nifer y Bobl |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 3 |
| Cymorth Cyntaf | 3 |
| Mân anafiadau | 16 |
| Anafiadau difrifol | 9 |
| Marwolaeth | 3 |

**Cofnodir anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar ffyrdd – pan ydynt ar gael – yn yr IRS yn yr un categorïau ag anafiadau tân.*

## 7.0 Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant A: *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Fe aeth y Gwasanaeth at 187 o danau damweiniol mewn anheddau yn ystod hanner cyntaf 2020/21, sef lefel debyg i'r hyn a welwyd yn ystod hanner cyntaf 2019/20 (186 o danau damweiniol mewn cartrefi). Er ei bod hi'n siomedig gweld bod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd, dim ond mymryn o gynnydd a welwyd.




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 104 | 83 | | | 187 | ↑ 0.5% | 178 | ↑ 5.0% |
| | 2019-20 | 98 | 88 | | | 186 | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 8.0 Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi


13 Ni chofnodwyd ychwaneg o farwolaethau nac anafiadau difrifol o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod ail chwarter 2020/21. Mae nifer y mân anafiadau yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Tra bod nifer yr archwiliadau rhagofalus wedi cynyddu o 9 i 18, gostyngodd nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle o 22 i 11.

| Difrifoldeb yr anaf | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 29 | 20 | 8 | 9 | 18 |
| Cymorth cyntaf | 16 | 10 | 11 | 22 | 11 |
| Mân anafiadau | 12 | 23 | 8 | 12 | 12 |
| Anafiadau difrifol | 4 | 2 | 0 | 3 | 0 |
| Marwolaeth | 3 | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **64** | **56** | **29** | **47** | **44** |

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 26 | 15 | | | 41 | ↓ 5 | 43 | ↓ 3 |
| | 2019-20 | 32 | 14 | | | 46 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 3 | 0 | | | 3 | ↑ 2 | | |
| | 2019-20 | 1 | 0 | | | 1 | | | |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Cwblhawyd 6,471 o archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod hwn, ac o'r rhain roedd 2,157 (33%) o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a atgyfeiriwyd gan sefydliad sy'n bartner i ni | 2020-21 | 30% | 37% | | | 33% | ↑ 4pp | 28% | ↑ 5pp |
| | 2019-20 | 28% | 31% | | | 29% | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 10.0 Larymau mwg - Tanau Mewn Cartrefi

10.1 Roedd synwyryddion Mwg/Gwres yn bresennol yn achos mwyafrif y tanau a fynychwyd mewn cartrefi, er na wnaethant weithredu ar bob achlysur; yn achos 32 o'r tanau hyn nid oedd synhwyrydd yn bresennol.

10.2 O'r 200 o danau a fynychwyd mewn cartrefi (damweiniol a bwriadol) llwyddwyd i gyfyngu 174 ohonynt i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, neu'r eitem a aeth ar dân yn y lle cyntaf, neu achoswyd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno, wedi canu ac wedi rhoi rhybudd | 2020-21 | 50 | 37 | | | 87 | ↓ 10.3% | 87 | → 0.0% |
| | 2019-20 | 55 | 42 | | | 97 | | | |
| Larwm mwg heb ganu | 2020-21 | 23 | 23 | | | 46 | → 0.0% | 45 | ↑ 2.2% |
| | 2019-20 | 18 | 28 | | | 46 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi canu ond heb roi rhybudd | 2020-21 | 19 | 16 | | | 35 | ↓ 2.8% | 34 | ↑ 2.9% |
| | 2019-20 | 22 | 14 | | | 36 | | | |
| Dim larwm mwg yno | 2020-21 | 17 | 15 | | | 32 | ↑ 39.1% | 27 | ↑ 18.5% |
| | 2019-20 | 12 | 11 | | | 23 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |